# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)(Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | P. Cooper | J.K. Howell | A.C. Jones |
| B.D.J. Phillips | E. Skinner | G.B. Thomas | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| J.M. Charles | T. Davies | M. Donoghue | N. Evans |
| J.D. James | J.P. Jenkins | M.J.A. Lewis | D. Owen |
| R. Sparks | M. Thomas | D.E. Williams | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Cynghorydd A. Vaughan Owen a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio PL/04317

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
Cynghorydd D. Price a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio PL/04317

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G.B. Thomas | 3: PL/04317 – Preswylfa angen lleol ar dir ger Pen Rhos, Llanelli, SA14 7HA | Yn berchen ar dir y gallai teulu adeiladu cartrefi arno |

| | | |
|---|---|---|
| C. A. Jones | **3.** 3: PL/04868 - Adeiladu preswylfa ar gyfer anghenion lleol ym Mhlas Newydd, Llangain, Caerfyrddin, SA3 5AY | Roedd yr adroddiad yn awgrymu iddi benderfynu ynghylch y cais eisoes |

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD gwrthod y ceisiadau cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd:-:-**

| | |
|---|---|
| **PL/04317** | **Preswylfa angen lleol ar dir ger Pen Rhos, Llanelli, SA14 7HA**<br><br>(NODER: Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon, datganodd y Cynghorydd G. B Thomas ddiddordeb ar y sail yr oedd yn berchen ar dir y gallai ei blant, pe byddent yn dychwelyd i'r ardal, wneud cais am adeiladu cartrefi arno. Arhosodd yn y cyfarfod ond ymataliodd rhag pleidleisio)<br><br>Derbyniwyd sylwadau gan yr aelodau lleol yn cefnogi'r cais gan ailadrodd yr hyn oedd wedi'i ddweud yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd. Roedd y rheini'n cynnwys amgylchiadau personol a chysylltiadau'r ymgeisydd â'r ardal, nid oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r angen i fod ar gofrestr tai'r cyngor, nid oedd unrhyw leiniau/anheddau addas ar werth yn yr ardal, yr angen i gadw teuluoedd ifanc yn yr ardaloedd gwledig. Roedd yr ymgeisydd wedi nodi bod y safle o fewn grŵp o dai, roedd adeiladau preswyl a masnachol eraill yn agos iawn ac roedd ceisiadau anghenion lleol eraill a oedd wedi cael caniatâd cynllunio e.e. W/36522 yn Abernant lle roedd yr adeilad a gymeradwwyd yn fwy na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer safle'r cais.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |
| **PL/04868** | **Adeiladu preswylfa ar gyfer anghenion lleol ym Mhlas Newydd, Llangain, Caerfyrddin, SA3 5AY**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd C.A. Jones wedi datgan buddiant yn y cais hwnyn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried). |

## 4. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 1 A 2

Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i adroddiad perfformiad y gwasanaeth cynllunio, ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2022

ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ac, yn nodedig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol mewn perthynas â 2021/22.

O ran cwestiwn ar ddangosydd 3 a nifer y targedau mawr y penderfynwyd arnynt y tu allan i'r dyddiad targed, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio eu bod yn ymwneud yn bennaf â cheisiadau cynllunio hanesyddol, a byddai rhai ohonynt wedi bod yn y system am gyfnod sylweddol. Wrth i'r adran weithio trwy'r ceisiadau sy'n weddill, byddai'r ffigurau'n gwella gydag amser.

O ran Dangosydd 12 a'r cais am gostau apêl, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod y nodyn a fanylwyd yn y dangosydd sy'n ymwneud â 2019 wedi'i gynnwys mewn camgymeriad ac y byddai'n cael ei dynnu o adroddiadau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai'n trefnu bod adroddiad ar ffigyrau'r trydydd Chwarter yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 TACHWEDD 2022

Cyfeiriwyd at Gais Cynllunio PL/04526 ac at gyflwyniad hwyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Caerfyrddin, yr oedd ei gynnwys wedi'i ddarllen i'r Pwyllgor. Gofynnwyd i'r cofnodion gael eu diwygio i gofnodi'r mater.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd, 2022 yn gywir.**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**